Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Education Directorate

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ian Budd
Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6ND

Ein Cyf: qA1164349

Awst 2016

Annwyl Mr Budd

DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGLION (CYMRU) 2013 – CYNNIG I WNEUD NEWIDIADAU A REOLEIDDIR I YSGOL UWCHRADD JOHN SUMMERS, QUEENSFERRY, SIR Y FFLINT

1. Mae Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru, wedi ystyried cynnig Cyngor Sir y Fflint ("yr awdurdod lleol") i ddirwyn y ddarpariaeth chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd John Summers i ben o 31 Awst 2016 a dirwyn y ddarpariaeth 11-16 i ben o 31 Awst 2017.

2. Mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth dan adran 50 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013") i gynigion sy'n cynnwys newidiadau i ddarpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir. Mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru dan adran 52 o Ddeddf 2013 i gynigion sy'n gysylltiedig â'r rhai sy'n cynnwys newidiadau i ddarpariaeth chweched dosbarth. Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cynnig i ddirwyn y ddarpariaeth 11-16 yn Ysgol Uwchradd John Summers i ben yn gysylltiedig â'r cynnig i ddirwyn darpariaeth chweched dosbarth i ben a chan hynny mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth i'r cynnig gan Weinidogion Cymru.

3. Mae Gweinidogion Cymru yn arfer eu swyddogaethau ad-drefnu ysgolion yn unol â Deddf 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ("y Cod") a wnaed dan y Ddeddf honno. Lle mae'n ofynnol iddynt ystyried cynigion, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu cymeradwyo'r cynigion, gwrthod y cynigion, neu eu cymeradwyo gydag addasiadau.

4. Fe'm cyfarwyddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet i ddweud ei bod wedi ystyried y ddogfen ymgynghori, yr adroddiad ymgynghori, y gwrthwynebiadau statudol, yr adroddiad gwrthwynebu a'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol at ddibenion ystyried y ffactorau perthnasol a nodir yn y Cod.

5. Gan arfer ei phwerau dan adran 50 o Ddeddf 2013 mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi penderfynu cymeradwyo'r cynnig i gael gwared ar y ddarpariaeth chweched dosbarth o 31 Awst 2016 a chymeradwyo'r cynnig i gael gwared ar y ddarpariaeth 11-16 o 31 Awst 2017.

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 029 2080 1426
SchoolsManagementDivision3@wales.gsi.gov.uk
Gwefan ● website: www..wales.gov.uk

6. Mae paragraffau 1.3 i 1.14 o'r Cod yn nodi'r ffactorau a ddylai gael eu hystyried gan Weinidogion Cymru wrth arfer eu swyddogaethau i benderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion. Caiff y ffactorau perthnasol eu nodi isod a chânt eu dilyn gan ddadansoddiad sy'n dynodi i ba raddau y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn credu bod y ffactorau wedi cael eu "bodloni".

CYNNIG I DDIRWYN Y DDARPARIAETH CHWECHED DOSBARTH I BEN O 31 AWST 2016

Gwrthwynebiadau i'r cynnig

7. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi y bu llawer o wrthwynebiadau statudol yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ond nad oedd yr un o'r rhain yn gwrthwynebu cael gwared ar y ddarpariaeth chweched dosbarth.

ANSAWDD A SAFONAU MEWN ADDYSG

Deilliannau (Safonau a Lles)

8. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn credu ei bod yn rhesymol tybio y bydd yr ystod fwy o gyrsiau a gynigir yn y ganolfan ôl-16 yng Ngholeg Cambria, a'r dosbarthiadau mwy, hyfyw a mwy symbylol, o fudd i ddysgwyr ôl-16 ac y byddent yn cefnogi deilliannau da yng Nghyfnod Allweddol 5. Nid yw Ysgrifennydd y Cabinet yn gweld unrhyw dystiolaeth i awgrymu, a hithau wedi ystyried adolygiad blynyddol diweddaraf Estyn o berfformiad, a sylwadau gan Estyn, na fydd ansawdd a safon yr addysg yng Ngholeg Cambrai yn cael eu cynnal a'u trosglwyddo i'r ganolfan ôl-16 sydd newydd gael ei hadeiladu. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi nodi bod tystiolaeth fonitro gan Estyn yn dynodi bod y deilliannau'n dda iawn yng Ngholeg Cambria tra bo deilliannau yn y consortiwm o ysgolion uwchradd wedi bod islaw cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

9. Er bod y deilliannau'n debygol o gael eu cynnal neu'u gwella yng Ngholeg Cambria, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod y gall fod heriau i'r ddarpariaeth 11-16 yn Ysgol Uwchradd John Summers os ceir gwared ar y ddarpariaeth chweched dosbarth gan y byddai gan yr ysgol nifer sylweddol is na 600 o ddisgyblion ar y gofrestr. Yn unol ag adroddiad blaenorol gan y Comisiwn Archwilio, mae ysgolion â llai na 600 o ddisgyblion ar y gofrestr yn ysgolion bach. Gall ysgolion bach, er nad yw'n anorfod, brofi problemau o ran darparu'r cwricwlwm yn llawn a rhoi gwerth am arian. Mae'r Gweinidog wedi nodi, hyd yn oed gyda'r ddarpariaeth 11-18 yn Ysgol Uwchradd John Summers, mai 363 oedd y nifer ar y gofrestr ym mis Ionawr 2015.

10. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn, gan na fyddai'n rhaid i'r ysgol gefnogi'r chweched dosbarth mwyach, pe bai'r ddarpariaeth 11-16 yn aros, y byddai'n gallu canolbwyntio adnoddau ar wella safonau ymhellach yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Fodd bynnag, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi nodi hefyd bod y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion wedi gosod John Summers yn y Categori Cefnogaeth Coch sy'n cynrychioli ysgol y mae angen iddi wella ac y mae angen cymorth arni i adnabod y camau i wella neu i wneud i newid ddigwydd yn gyflymach. Felly mae Ysgrifennydd y Cabinet yn tueddu i gytuno bod y cynnig yn debygol o wella safonau'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ôl-16 yn yr ardal, er bod peth pryder ynghylch cynnal safonau i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yn yr ysgol unwaith y bydd y chweched dosbarth yn cau oherwydd yr heriau a amlygwyd uchod.

11. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi mai dim ond un aelod o staff yn y consortiwm o ysgolion uwchradd sydd wedi'i neilltuo i ddarpariaeth ôl-16 yn unig, gyda gweddill y staff sy'n cyflwyno'r ddarpariaeth ôl-16 yn darparu ar gyfer y grŵp 11-16 hefyd. Mae hi o'r farn bod risg posibl bod dirwyn y ddarpariaeth ôl-16 i ben yn golygu y bydd rhai athrawon yn dewis chwilio am swyddi mewn sefydliadau eraill er mwyn parhau i ddarparu cyrsiau ôl-16. Mae'r risg o golli aelodau o staff yn cael ei ddwysau gan ansicrwydd ynghylch dyfodol hirdymor yr ysgol. Mae hyn yn gyffredin mewn sefyllfaoedd lle mae newidiadau'n digwydd i drefniadaeth ysgolion, ond rhywbeth byrdymor ydyw a bydd yn effeithio ar yr ysgol ar hyn o bryd ac ym mlwyddyn academaidd 2016/17.

12. Er nad oes gan Ysgrifennydd y Cabinet reswm pendant dros gredu y bydd deilliannau'n dioddef os mai dim ond y ddarpariaeth chweched dosbarth y ceir gwared arni, a phe bai'r ysgol yn cael cefnogaeth i barhau i ddarparu ar gyfer disgyblion iau, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn derbyn y byddai heriau o hyd gan y byddai'r ysgol yn debygol o fod yn ysgol fach gyda llai na 350 o ddisgyblion ar y gofrestr a allai achosi i'r ysgol brofi anawsterau o ran darparu'r cwricwlwm yn llawn a rhoi gwerth am arian.

13. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi nodi bod trefniadau pontio yn eu lle o fis Medi 2016 ar gyfer y dysgwyr hynny sydd wedi dechrau cyrsiau AS/A2 ac a fydd wedi cwblhau blwyddyn 12 erbyn haf 2016. Bydd disgwyl iddynt symud i ddarpariaeth ôl-16 arall, gyda'r mwyafrif yn debygol o drosglwyddo i Goleg Cambria i gwblhau Blwyddyn 13 o'u cyrsiau ym mlwyddyn academaidd 2016-17. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod, ar gyfer dysgwyr sy'n trosglwyddo i Goleg Cambria, bod ymdrechion yn cael eu gwneud, trwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda Choleg Cambria i sicrhau y bydd y myfyrwyr hyn yn cael eu haddysgu gan yr un athro/athrawes er mwyn sicrhau bod y broses o symud o un sefydliad i'r llall yn tarfu gyn lleied â phosibl arnynt. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn bod y trefniadau pontio hyn yn ddigonol er mwyn sicrhau bod y symud yn tarfu gyn lleied â phosibl ar y disgyblion hyn gan ei bod yn debygol eu bod eisoes yn teithio i gwrdd ag eraill sy'n dilyn cyrsiau tebyg dan y trefniadau consortiwm. Fodd bynnag, mae hi'n nodi y gallai'r cynnig darfu rywfaint ar ddisgyblion sy'n dewis peidio â throsglwyddo i Goleg Cambria.

14. Ar gyfer disgyblion 11-16, pe bai'r cynnig i gau'r ysgol yn cael ei gymeradwyo, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried bod hynny'n debygol o gael effaith anffafriol ar ddisgyblion yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17 gan y byddai staff yn fwy tebygol o gael eu colli yn ystod blwyddyn olaf gweithrediad yr ysgol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi nodi sicrwydd yr awdurdod lleol y bydd yn cymryd pob cam ymarferol i sicrhau bod y cynnig yn tarfu gyn lleied â phosibl ar yr holl ddisgyblion trwy gynllunio trefniadau pontio'n ofalus.

Darpariaeth

15. Mae'n ymddangos yn hynod debygol i Ysgrifennydd y Cabinet y bydd nifer uwch o opsiynau ôl-16 dichonadwy ar gael yng Ngholeg Cambria o ganlyniad i'r cynnig a fyddai'n tueddu i ddarparu profiadau dysgu gwell.

16. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi nad fu gwrthwynebiad i'r cynnig i ddirwyn y ddarpariaeth chweched dosbarth i ben ac mae hi'n tueddu i gytuno, ar y cyfan, bod cyfleoedd ar gyfer myfyrwyr ôl-16 yn debygol o gynyddu o ganlyniad i'r cynnig.

17. Mae hyn yn bennaf am fod Ysgrifennydd y Cabinet yn credu y bydd gan fyfyrwyr fynediad at ystod ehangach o gyrsiau, gan gynnwys opsiynau galwedigaethol, mewn un lleoliad yng Ngholeg Cambria.

18. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ymwybodol y bydd cyflwr y ganolfan ôl-16 newydd yng Ngholeg Cambria yn welliant o'i gymharu ag adeiladau presennol Ysgol Uwchradd John Summers ac y bydd hefyd yn cynnwys cyfleusterau modern i fyfyrwyr eu mwynhau. Felly, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi dod i'r casgliad bod ansawdd yr adeiladau sydd ar gael i'r disgyblion ôl-16 yn debygol o wella o ganlyniad i'r cynnig.

19. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi y bydd y rhai sy'n dymuno cael mynediad at ddarpariaeth ôl-16 ym Mlwyddyn 12 yn gallu arfer eu dewis trwy gyflwyno cais i Goleg Cambria neu ddarparwyr addysg bellach eraill ar gyfer mis Medi 2016 ac wedi hynny.

20. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi y gellir disgwyl i drefniadau bugeiliol cyd-drefnedig y cyfeirir atynt yn y ganolfan roi cymorth i'r holl fyfyrwyr.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

21. O ran rheoli adnoddau, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn credu y gallai'r cynnig i gael gwared ar y ddarpariaeth ôl-16 gael rhai effeithiau cadarnhaol ar Ysgol Uwchradd John Summers ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17 gan na fyddai angen i'w chyllideb ddarparu cymhorthdal ar gyfer cyrsiau chweched dosbarth a chan na fyddai iddi, o 2016 ymlaen, dalu am gludo disgyblion i leoliadau eraill o fewn y consortiwm er mwyn iddynt gael budd o ystod o gyrsiau.

22. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi, o safbwynt ariannol a gweinyddol, y byddai'r cynnig yn debygol o gael rhai effeithiau cadarnhaol ar Ysgol Uwchradd John Summers ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17.

23. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod sefyllfa ariannol yr ysgol wedi bod yn iach dros y blynyddoedd diwethaf ac na ddylai'r cynnig effeithio'n negyddol ar y sefyllfa hon. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn credu ei bod yn ymddangos yn fwy tebygol na pheidio y bydd y cynnig yn rhoi Ysgol Uwchradd John Summers ar sylfaen ariannol gadarnach. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn siomedig bod sgôr categoreiddio diweddaraf yr ysgol wedi gostwng a'i bod wedi newid o gategori oren i gategori coch. Fodd bynnag, mae hi hefyd yn ymwybodol y bydd yn awr, fel ysgol categori coch, yn cael pecyn mwy o gefnogaeth wedi'i theilwra i roi cymorth iddi wella.

Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

24. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ymwybodol bod niferoedd y disgyblion yn Ysgol Uwchradd John Summers wedi bod yn gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r lleoedd gwag yn codi o 20.18% yn 2009 i 35.75% yn 2015. Mae hi'n cydnabod bod yr amcanestyniadau ar gyfer niferoedd y disgyblion yn dynodi y bydd y niferoedd yn dechrau codi yn y blynyddoedd nesaf, ond nid tan 2020. Er bod Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi y bydd cael gwared ar y chweched dosbarth o Ysgol Uwchradd John Summers yn cynyddu'r lleoedd gwag yn yr ysgol, mae hi'n derbyn nad oes gan yr awdurdod lleol unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r ystafelloedd gwag oherwydd y cynnig i gau'r ysgol.

25. Mae'r awdurdod lleol wedi adnabod datblygiadau tai a fydd yn debygol o arwain at fwy o ddisgyblion a chynyddu'r nifer ar y gofrestr ac felly cynaliadwyedd yr ysgol. Fodd bynnag, mae oedi wedi bod gyda'r datblygiad tai ac mae'r graddfeydd amser yn aneglur ar hyn o bryd, gan olygu y gallai gymryd sawl blwyddyn nes bod y datblygiad yn dwyn ffrwyth.

26. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn deall bod yr awdurdod lleol yn cynnig y bydd disgyblion chweched dosbarth yn y dyfodol a fyddai wedi mynychu Ysgol Uwchradd John Summers fel arall yn gallu mynychu canolfan ôl-16 newydd Coleg Cambria ar safle Glannau Dyfrdwy, y disgwylir iddo fod â chyfleusterau hygyrchedd gwell, gan gynnwys y potensial ar gyfer opsiynau cyfrwng Cymraeg os bydd digon o alw. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod bod dros £14.6m wedi cael ei fuddsoddi i adeiladu'r cyfleusterau ôl-16 newydd yng Ngholeg Cambria i ddarparu addysg ôl-16 ar gyfer 700 o ddisgyblion. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi y byddai'r ganolfan ôl-16 newydd yn gallu derbyn unrhyw ddisgyblion a ddadleolir o chweched dosbarth Ysgol Uwchradd John Summers. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi hefyd ei bod yn debygol y bydd digon o le i ddisgyblion o ysgolion lleol eraill yn yr ardal hefyd, pe baent yn dewis mynychu'r ganolfan ôl-16 newydd. Gan fod y ganolfan ôl-16 yng Ngholeg Cambria'n adeilad newydd â chyfleusterau modern, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi y bydd y cynlluniau ar gyfer ansawdd yr adeiladau o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddarperir yn Ysgol Uwchradd John Summer ac y byddant, yn ôl pob tebyg, yn sylweddol well ac yn fwy addas ar gyfer diben addysg yn yr 21^{ain} Ganrif.

27. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn credu nad oes rheswm i bryderu ynghylch y diffyg ysgolion eraill yn Sir y Fflint â lleoedd i ddysgwyr ôl-16 gan y bydd y ganolfan newydd yn darparu lleoedd ar gyfer tua 700 o ddisgyblion ôl-16 o fis Medi 2016 ymlaen. Bydd y cymeriad ieithyddol yr un fath fwy neu lai ag Ysgol Uwchradd John Summers yn yr ystyr mai lleoedd cyfrwng Saesneg fyddant yn bennaf gyda chyrsiau cyfrwng Cymraeg yn cael eu darparu os oes digon o alw.

28. Yn sgîl agosrwydd cymharol Ysgol Uwchradd John Summers at ganolfan ôl-16 newydd Coleg Cambria, mae'n ymddangos yn annhebygol i Ysgrifennydd y Cabinet y bydd angen i unrhyw ddisgybl deithio am fwy nag awr i'r ysgol. Er y gallai rhai disgyblion brofi pellterau teithio mwy, mae'r awdurdod lleol wedi sicrhau Ysgrifennydd y Cabinet na fyddai'n rhaid i unrhyw ddisgybl chweched dosbarth gwblhau siwrnai a fyddai'n cymryd yn hwy nag awr.

Darparu adnoddau ar gyfer addysg, a goblygiadau ariannol eraill

29. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod y bydd cyllid chweched dosbarth yn cael ei ailddosbarthu i ysgolion eraill a ddewisir gan ddisgyblion felly ni fydd unrhyw arbedion o ganlyniad i'r cynnig. Mae hi hefyd yn cydnabod na fydd derbyniadau cyfalaf o werthu tir neu adeiladau o ganlyniad i'r cynnig hwn. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn deall y bu gan Ysgol Uwchradd John Summers gyllideb weddol iach am y blynyddoedd diwethaf. Er nad yw'r awdurdod lleol wedi cysylltu cynhaliaeth y chweched dosbarth yn uniongyrchol â'r sefyllfa gyllidebol, ymddengys i Ysgrifennydd y Cabinet fod cynnal chweched dosbarth yn ychwanegu cymhlethdod at reoli cyllideb yr ysgol. Er na fydd y cynnig yn arwain at ddosbarthu cyllid yn fwy cyfartal rhwng ysgolion, bydd yn sicrhau bod yr ysgol yn gallu canolbwyntio'i adnoddau ar gefnogi dysgu ar gyfer disgyblion 11-16 oed, felly bydd y cyllid rhwng grwpiau oedran yn fwy cyfartal.

30. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried y bydd y cynnig yn cyfrannu at ddarparu ysgolion cynaliadwy ar gyfer yr 21ain Ganrif ac at reolaeth strategol well ar yr ystâd ysgolion, gan y bydd y cynnig yn cael gwared ar ddarpariaeth chweched dosbarth y mae'r awdurdod yn ystyried ei bod yn anhyfyw ac yn gwella'r cyfleusterau sydd ar gael i'r disgyblion hynny. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn deall bod yr awdurdod lleol wedi cael £7.3m mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru dan Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer Addysg i adeiladu'r ganolfan ôl-16 newydd.

31. Mae'r awdurdod lleol yn datgan y bydd gan yr holl ddysgwyr sy'n bodloni'r meini prawf o fewn eu Polisi Cludiant hawl i gludiant am ddim i'r ganolfan ôl-16. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi y gallai hyn olygu bod gan rai dysgwyr drefniadau cludiant gwahanol ac nid yw'n disgwyl y bydd hyn yn rhwystr i dderbyn lleoedd ôl-16, yn enwedig gan ei bod yn debygol y bydd siwrneiau'n fyrrach o dipyn na'r canllawiau ym Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

FFACTORAU CYFFREDINOL ERAILL

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

32. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi bod yr awdurdod lleol wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Mae hi'n nodi bod yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi canfod amryw effeithiau cadarnhaol, megis cyfleoedd gwell o ran addysg uwch a chyflogaeth oherwydd argaeledd mwy o lwybrau dysgu, llai o amser yn teithio i gael mynediad at ddewisiadau o ran pynciau ac adeiladau sy'n cydymffurfio'n fwy â deddfwriaeth ar gyfer disgyblion anabl gan fod y ganolfan newydd yn adeilad modern. Er nod yr asesiad wedi canfod effaith negyddol hefyd gan y byddai'r cynnig yn arwain at bellterau teithio mwy i rai disgyblion ôl-16, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi nad yw amseroedd siwrneiau'n debygol o fod yn ormodol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod yr awdurdod lleol wedi rhoi sicrwydd y bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i adnabod grwpiau agored i niwed megis disgyblion ag ADY, disgyblion o gymunedau sipsiwn/teithwyr a phlant sy'n derbyn gofal, a fydd yn galluogi'r cymorth a roddir i ddysgwyr unigol trwy'r Gwasanaeth Cynhwysiant i barhau. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi na fyddai'r cynnig yn rhagfarnu yn erbyn unrhyw grwpiau gwarchodedig, gan fod yr awdurdod lleol wedi cymryd camau i liniaru ei effaith ar blant o gymunedau sipsiwn a theithwyr.

Effaith gymunedol

33. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno â'r casgliad y daethpwyd iddo yn asesiad yr awdurdod lleol o effaith a ganfu y byddai'r cynigion i ad-drefnu darpariaeth ôl-16 yn yr ardal hon yn Sir y Fflint yn cael effaith niwtral neu gadarnhaol ar fynediad at gyfleusterau cymunedol gan y byddai gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd yn yr ysgol yn dal i fod yn eu lle ynghyd â chyfleusterau yn yr ysgol gynradd leol sy'n cael ei chadw a'r ganolfan hamdden gyferbyn â'r ysgol. Byddai ychwanegu Coleg Cambria yn gwella ar y rhain. Fodd bynnag, mae hi wedi cydnabod y byddai hyn yn rhannol ddibynnol ar gadw adeiladau'r ysgol a sicrhau eu bod yn dal yn hygyrch i'r cyfleusterau hyn.

34. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn tueddu i gytuno i raddau helaeth gyda'r awdurdod lleol bod y dewis ychwanegol o gyrsiau ôl-16, ynghyd â'r cynnydd yn eu hargaeledd a'u priodoldeb yn debygol o wella'r dewis i'r gymuned ehangach. Byddai myfyrwyr sy'n

dewis y ganolfan neu leoliadau chweched dosbarth eraill yn y dyfodol yn cael budd o'r ffaith mai dim ond un lleoliad y byddai angen iddynt ei fynychu yn hytrach na theithio rhwng nifer o safleoedd o bosibl a byddai ganddynt gyfleusterau gwell. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol a fyddai'n unigryw i unrhyw grwpiau cymunedol penodol.

35. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn deall nad yw'n debygol y bydd unrhyw dir yn cael ei werthu o ganlyniad i'r cynnig hwn.

FFACTORAU PENODOL I'W CYMRYD I YSTYRIAETH AR GYFER CYNIGION I YCHWANEGU NEU GAEL GWARED AR DDARPARIAETH CHWECHED DOSBARTH

A fydd y cynigion yn arwain at wella cyflawniadau addysgol neu hyfforddiadol pobl sydd uwchlaw oedran ysgol statudol ond dan 19;

36. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn bod honiad yr awdurdod lleol y bydd y cynnig yn arwain at wella cyflawniadau addysgol neu hyfforddiadol pobl dros oedran ysgol gorfodol yn rhesymol gan fod sefydliadau ôl-16 mwy yn darparu mwy o gyfleoedd i gyfranogi mewn gweithgareddau allgyrsiol, a chan fod cyrhaeddiad yng Ngholeg Cambria yn dda ar y lefel hon. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn tueddu i gytuno y bydd manteision o ran mwy o ddewis o bynciau i fyfyrwyr a chan y bydd y ddarpariaeth yn cael ei chanoli yn y ganolfan ôl-16, mae'n annhebygol y bydd angen teithio yn ystod y diwrnod ysgol sy'n anghyfleus i ddysgwyr, ac yn lleihau amser astudio neu brofiadau eraill sy'n ychwanegu at y cwricwlwm.

A fydd y cynigion yn cyfrannu at ystod briodol o gyrsiau a chymwysterau perthnasol a llwybrau dysgu galwedigaethol sydd o ansawdd uchel, a oleuwyd gan gyflogwyr ac sydd wedi'u targedu at ddisgyblion o bob gallu, gan gynnal TGAU, Safon Uwch/Uwch Gyfrannol a chyrsiau sefydledig eraill, fel sy'n ofynnol dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ar gyfer dysgwyr 14-19 oed;

37. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod Ysgol Uwchradd John Summers yn annhebygol o gynnal yr amrywiaeth o gyrsiau ôl-16 a chyrsiau ôl-16 o'r ansawdd sy'n ofynnol i fodloni Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 gyda nifer gostyngol a bach y disgyblion ar y gofrestr. Mae Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn ymwybodol bod Ysgol Uwchradd Dewi Sant ac Ysgol Uwchradd Cei Connah, sydd ill dwy o fewn y trefniadau consortiwm, wedi cael cymeradwyaeth yn ddiweddar i gynigion i gael gwared ar eu darpariaeth chweched dosbarth, gan felly gyfyngu ymhellach ar allu'r consortiwm i ateb gofynion y Mesur. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi bod Coleg Cambria yn goleg poblogaidd ac y bydd yn darparu'r amrywiaeth o gyrsiau a chyrsiau o'r ansawdd sy'n ofynnol i fodloni Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

A yw'r cynigion yn debygol o arwain at fwy o gyfranogiad mewn dysgu gan ddisgyblion y tu hwnt i oedran ysgol gorfodol, gan ystyried materion cludiant a chostau i'r dysgwr ac eraill, fforddiadwyedd costau o'r fath, a'r tebygolrwydd y bydd dysgwyr yn barod i deithio;

38. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn tueddu i gytuno â chred yr awdurdod lleol y bydd cyfranogiad mewn dysgu gan ddisgyblion y tu hwnt i oedran ysgol gorfodol yn cynyddu o ganlyniad i'r cynnig gan y bydd mwy o gyfleoedd a dewisiadau ar gael. Nid oes unrhyw reswm ganddi dros anghytuno â honiad yr awdurdod lleol bod cynyddu nifer y cyrsiau'n debygol o gynyddu cyfranogiad. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn deall bod

lefel y diddordeb lleol yn uchel gan fod y ganolfan chweched dosbarth newydd wedi bod yn cael ei hyrwyddo am beth amser. Gallai'r cyfleusterau newydd gynyddu'r diddordeb a'r nifer sy'n derbyn lleoedd. Er y gallai rhai disgyblion orfod teithio'n bellach ar gyfer addysg ôl-16, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi bod disgyblion yn annhebygol o orfod teithio yn ystod y diwrnod ysgol i gael mynediad at eu dewisiadau, gan y bydd darpariaeth estynedig ar gael yng Ngholeg Cambria. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn y gallai hyn gynyddu cyfranogiad gan y bydd yn lleihau'r anghyfleustra sy'n gysylltiedig â theithio yn ystod y diwrnod ysgol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn deall y bydd y chweched dosbarth mewn rhai ysgolion, megis Penarlâg, yn cael eu cadw ac felly bydd elfen o ddewis rhwng ysgolion a lleoliadau chweched dosbarth.

I ba raddau y mae'r cynigion yn cyfrannu at yr agenda 14-19 gan ystyried barn rhwydweithiau 14-19 a phartneriaethau dysgu lleol;

39. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod yr awdurdod lleol yn credu y bydd y cynnig yn codi cyflawniad ac yn creu mwy o gyfleoedd i ymgysylltu â gweithgareddau allgyrsiol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod yr awdurdod lleol wedi creu Bwrdd Rhaglen Ôl-16 a aeth ati, trwy gyfres o weithdai, i ddatblygu'r glasbrint strategol ar gyfer trawsnewid ôl-16. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod yr awdurdod lleol yn credu y bydd hyn yn cyfrannu at yr agenda 14-19 trwy wella'r profiad ar ôl 16 a pharatoi disgyblion yn well ar gyfer bywyd. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn tueddu i gytuno â'r awdurdod lleol bod y cynnig yn debygol o wella'r profiad ôl-16 gan y barnwyd fod y ddarpariaeth ar y cyfan yng Ngholeg Cambria yn chwartel uchaf y colegau yng Nghymru a'i bod yn annhebygol o waethygu o ganlyniad i'r cynnig, gyda chyllid ychwanegol a chyfleusterau gwell yn cael eu darparu.

Effaith y cynigion ar ddarpariaeth 11-16 mewn ysgolion;

40. Mae'r awdurdod lleol yn ystyried y gallai'r cynnig gael effaith niwtral neu gadarnhaol ar ddarpariaeth 11-16 yn Ysgol Uwchradd John Summers. Pe bai'r ysgol yn aros ar agor fel ysgol uwchradd 11-16, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod bod risgiau i'r ysgol o hyd sy'n gysylltiedig â cholli athrawon a fyddai o bosibl am barhau i addysgu mewn darpariaeth ôl-16 neu nad ydynt yn fodlon addysgu disgyblion 11-16 yn unig am un flwyddyn. Mae nifer o ysgolion sy'n addysgu 11-16 yn yr ardal ac mae'n annhebygol y bydd y cynnig yn effeithio'n sylweddol ar y rhain.

41. Er bod Ysgrifennydd y Cabinet yn credu bod risg ychwanegol y gallai disgyblion yn y dyfodol ddewis ysgol uwchradd pob-oed arall lle gallant gael addysg barhaus o 11-18 oed yn lle Coleg Cambria, mae hi'n cydnabod bod ysgolion sy'n darparu addysg ôl-16 yn yr ardaloedd cyfagos eisoes wedi'u poblogi'n dda, gyda goralw am leoedd mewn rhai ohonynt a'i bod yn dra thebygol na fyddent yn gallu derbyn y disgyblion hynny. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod na fu unrhyw wrthwynebiad i golli'r ddarpariaeth chweched dosbarth ac na fu unrhyw wrthwynebiad i golli'r ddarpariaeth chweched dosbarth na gwrthwynebiad gan y rhai â buddiant yn Ysgol Uwchradd John Summers.

Sut y byddai'r cynigion yn effeithio ar hyfywedd sefydliadau sydd eisoes yn cynnig darpariaeth ôl-16 o ansawdd da, gan gynnwys chweched dosbarth mewn ysgolion, Sefydliadau Addysg Bellach a sefydliadau hyfforddi preifat;

42. Nid yw Ysgrifennydd y Cabinet wedi canfod rheswm i anghytuno â barn yr awdurdod lleol y bydd partneriaethau presennol rhwng darparwyr ôl-16 presennol yn cael eu cynnal o ganlyniad i'r cynnig ac y bydd cyfleoedd newydd ar gael. Mae hi hefyd yn nodi bod yr awdurdod lleol yn credu y bydd y broses o bontio i lwybrau priodol ar gyfer dysgwyr yn cael ei gwella gan y bydd llai o sefydliadau i ymweld â hwy. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod y 2 ddarparwr ôl-16 agosaf sy'n ysgolion ac a fydd yn cael eu cadw'n perfformio'n dda a bod ganddynt garfannau mawr o ddisgyblion. Yn ei barn hi mae'n annhebygol y bydd y cynnig yn effeithio'n sylweddol ar y rhain.

I ba raddau y bydd y cynigion yn dwyn manteision ychwanegol i ddysgwyr o'i gymharu â'r sefyllfa fel ag y mae ac opsiynau posibl eraill ar gyfer trefniadaeth ôl-16;

43. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn deall bod trefniadau cydweithredol yn eu lle ar hyn o bryd rhwng unedau chweched dosbarth Ysgol Uwchradd John Summers, Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Ysgol Uwchradd Treffynnon, Ysgol Uwchradd Cei Connah a Choleg Glannau Dyfrdwy; mae hi'n nodi bod y cydweithio hwn yn galluogi Ysgol Uwchradd John Summers i gynnig ystod o bynciau academaidd a galwedigaethol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod mai dim ond o ganlyniad i'r ffaith bod myfyrwyr yn teithio at ddarparwyr eraill i gael mynediad at y cyrsiau y mae'r cyrsiau hyn ar gael, ac nad yw'r deilliannau wedi bod cystal â chyfartaleddau lleol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi y bydd y cynnig yn golygu bod amrywiaeth o gyrsiau ar gael i fyfyrwyr a'r rheiny'n cael eu darparu mewn un lle yng nghanolfan ôl-16 newydd Coleg Cambria ac y bydd yn cael gwared â'r angen iddynt deithio rhwng darparwyr, gan ei gwneud yn bosibl treulio mwy o amser ar ddysgu a gwella deilliannau. Mae hi o'r farn y gallai hyn fod o fudd i ddisgyblion ar y cyfan, yn enwedig gan y cafwyd gwared yn barod â'r unedau chweched dosbarth mewn rhai o'r ysgolion sy'n cydweithio neu fod bwriad i gael gwared â hwy.

Sut y gallai'r cynigion effeithio ar y ddarpariaeth cludiant yn ôl disgresiwn y gallai awdurdod lleol ei chynnig i ddysgwyr uwchlaw oedran ysgol gorfodol.

44. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ymwybodol y bydd yr awdurdod lleol yn dal i ddarparu cludiant am ddim i'r ganolfan newydd ar gyfer dysgwyr ôl-16 sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra yn eu Polisi Cludiant. Nid oes unrhyw reswm gan Ysgrifennydd y Cabinet i gredu y bydd y cynnig hwn yn effeithio'n annheg ar ddysgwyr yn gyffredinol gan y bydd y polisi union yr un fath ag y mae ar hyn o bryd ac yr un mor gymwys i'r holl blant.

FFACTORAU I'W HYSTYRIED WRTH GYMERADWYO/PENDERFYNU AR GYNIGION TREFNIADAETH YSGOLION

A oes unrhyw gynigion eraill cysylltiedig

45. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet ystyriaeth i berthnasedd cynigion eraill i ad-drefnu ysgolion a darpariaeth chweched dosbarth yn ardal Glannau Dyfrdwy. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi penderfynu bod cysylltiad uniongyrchol rhwng y cynnig i gau John Summers a'r cynnig hwn. Y sail i'r penderfyniad hwn yw na fyddai'n bosibl cau'r ysgol pe na bai'r cynnig i gael gwared ar y chweched dosbarth yn cael ei gymeradwyo.

A yw'r ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion

46. Defnyddiodd yr awdurdod lleol yr un ddogfen ymgynghori ar gyfer y ddau gynnig sy'n ymwneud â John Summers. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi ar y cyfan bod yr ymgynghoriad ynghylch cael gwared ar y ddarpariaeth ôl-16 wedi cael ei gynnal yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Fodd bynnag, roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn siomedig i nodi, er bod yr ymgynghoriad ar agor am 43 diwrnod, nad oedd peth gwybodaeth ar gael nes bod 13 diwrnod wedi mynd heibio wedi i'r ymgynghoriad ddechrau, ac yn arbennig:

    - data hanesyddol a rhagamcanol ynghylch disgyblion ar gyfer ysgolion y gallai'r cynigion effeithio arnynt
    - detholiadau o adroddiadau Estyn.

47. Mewn perthynas â'r gyntaf o'r eitemau hyn, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn credu y gallai fod yn rhesymol tybio na fyddai newid yr ystod oedran yn John Summers yn effeithio ar ysgolion uwchradd eraill. Fodd bynnag, mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn y byddai potensial ar gyfer mwy o geisiadau i Ysgol Uwchradd Penarlâg yn y dyfodol, ond mae'n cydnabod bod y ffaith bod yr ysgol eisoes yn llawn yn golygu ei bod yn debygol y byddai ceisiadau y tu hwnt i'r nifer derbyn cyhoeddedig yn debygol o gael eu gwrthod; gellid dadlau na fyddai unrhyw effaith. O ran yr ail, mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn, er nad oedd yn cynnwys unrhyw ddetholiadau o adroddiadau Estyn, bod yr adroddiad wedi darparu dolenni i'r wefan a oedd ar gael i'r cyhoedd a bod gwybodaeth ategol bellach wedi'i chyhoeddi'n ddiweddarach.

48. Gan fod y rhan fwyaf o'r deunyddiau gofynnol mewn perthynas â'r elfennau ôl-16 ar gael yn y ddogfen ymgynghori gychwynnol a bod yr awdurdod lleol wedi darparu gwybodaeth ategol mewn dogfennaeth ddilynol, nid yw Ysgrifennydd y Cabinet yn meddwl bod yr anfantais hon yn tanseilio'r ymgynghoriad ynghylch y cynnig i gael gwared ar y chweched dosbarth.

49. Nid yw diffyg cydymffurfio gweithdrefnol wastad yn gamgymeriad dybryd ond bydd penderfyniad a wnaed yn dilyn ymarfer ymgynghori diffygiol yn sefyll dim ond os yw Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi ei bod yn anorfod y byddai'r canlyniad wedi bod yr un fath pe na bai'r ymarfer ymgynghori wedi bod yn ddiffygiol. Pe bai'r wybodaeth a hepgorwyd wedi cael ei chynnwys yn yr ymgynghoriad o'r dechrau un, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi na fyddai hyn wedi arwain at wneud sylwadau a oedd yn codi unrhyw fater neu wybodaeth newydd a fyddai wedi effeithio ar ei phenderfyniad hi. Felly mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi i'r graddau uchel sy'n ofynnol ei bod yn anorfod y byddai wedi dod i'r un penderfyniad ynghylch y cynnig pe bai'r wybodaeth wedi cael ei chynnwys yn y ddogfen ymgynghori ar y dechrau.

50. Ar ben hynny, mae Ysgrifennydd y Cabined wedi'i hargyhoeddi bod yr adroddiad ymgynghori wedi mynd i'r afael â'r prif faterion o'r broses ymgynghori ac wedi cynnwys ymateb llawn Estyn hefyd. Ar y cyfan, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi bod yr awdurdod lleol wedi ymgynghori yn unol â gofynion y Cod ynghylch y cynnig i gau'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd John Summers.

A yw'r cynnig wedi cael ei gyhoeddi yn unol â'r Cod ac a yw'r hysbysiad yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol

51. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi y cydymffurfiwyd â'r gofynion cyhoeddi.

52. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi penderfynu cymeradwyo cynnig yr awdurdod lleol i ddirwyn y ddarpariaeth chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd John Summers i ben, ar y sail y bydd:

- yn debygol o gynnal neu wella safon y ddarpariaeth addysg ar ôl 16;
- yn rhoi dewis ehangach o ddarpariaeth ôl-16 i bobl ifanc ar un safle;
- yn darparu cyfleusterau gwell ar gyfer disgyblion ôl-16
- yn cyfrannu at nodau Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 trwy gryfhau darpariaeth gynaliadwy.

53. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi mai o 1 Medi 2016 y byddai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu ac o'r dyddiad hwnnw byddai disgyblion Ysgol Uwchradd John Summers yn rhoi'r gorau i gael eu derbyn i'r chweched dosbarth. Pan gaiff y cynnig ei weithredu, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn disgwyl i'r awdurdod lleol sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu rhoi ar waith a bod y broses o drosglwyddo disgyblon yn cael ei chynnal gan darfu gyn lleied â phosibl. Dylai'r awdurdod lleol hysbysu'r Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion, y Gyfarwyddiaeth Addysg yn Llywodraeth Cymru pan fydd y cynnig wedi cael ei weithredu.

Penderfyniad ynghylch y cynnig i gael gwared ar y ddarpariaeth chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd John Summers

54. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cymeradwyo cynnig Cyngor Sir y Fflint i gael gwared ar y ddarpariaeth chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd John Summers.

55. Cafodd y penderfyniad ei wneud ar ôl ystyriaeth ofalus a manwl ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth hyd yma, oherwydd yr effaith y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn credu bod y cynnig yn debygol o'r chael ar ansawdd a safonau addysg ôl-16.

CYNNIG I DDIRWYN Y DDARPARIAETH 11-16 I BEN O 31 AWST 2017

Gwrthwynebiadau i'r cynnig

56. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod gwrthwynebiadau statudol sylweddol yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, a'r rheiny'n gyfanswm o 2,119, yr oedd pob un ohonynt yn gwrthwynebu dirwyn y ddarpariaeth 11-16 i ben. Roedd y gwrthwynebiadau a gafwyd yn dod o ystod amrywiol o bobl, gan gynnwys aelodau o deuluoedd disgyblion sy'n mynychu'r ysgol, disgyblion a chyn-ddisgyblion, darpar rieni, rhieni disgyblion mewn ysgolion eraill, un o lywodraethwyr yr ysgol, Gweinidog Eglwys Crist Glannau Dyfrdwy, Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Saint Ethelwold, aelodau o staff o ysgolion lleol amrywiol gan gynnwys Ysgol Uwchradd John Summers ac ysgolion sy'n ei bwydo, megis Ysgol Tyffynnon, cwmnïau â chysylltiadau yn yr ysgol, busnesau lleol, trigolion, Carl Sargeant AC, Mark Tami AS, Mark Isherwood AC ac aelodau o'r cyhoedd a'r gymuned.

ANSAWDD A SAFONAU MEWN ADDYSG

Deilliannau (Safonau a Lles)

57. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno'n rhannol â'r awdurdod lleol y dylai'r ysgol gau am nad yw'n hyfyw mwyach ac y gall ysgolion eraill yn yr ardal gynnig darpariaeth sydd o leiaf o'r un safon. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi, o'u cymharu mewn termau absoliwt, bod safonau o leiaf yr un fath, a phan gânt eu meincnodi bod y deilliannau yn Ysgol Uwchradd John Summers mewn safle uwch nag Ysgol Uwchradd Cei Connah ac Ysgol Uwchradd Dewi Sant yng Nghyfnod Allweddol 3 ac yn gyfartal ag Ysgol Uwchradd Dewis Sant yng Nghyfnod Allweddol 4, er bod y cyfartalwch i'w briodoli'n rhannol i'r ffaith bod y ddwy ysgol yn y chwartel isaf yn y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion.

58. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi nodi mai dim ond un flwyddyn o ddata perfformiad a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol wrth gyfleu ei ddadl yn y ddogfen ymgynghori. Er ei bod yn amlwg nad yw hyn yn ddelfrydol, mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn bod yr awdurdod lleol, trwy ddarparu dolenni i'r wefan Fy Ysgol Leol sy'n darparu trosolwg fwy hirdymor ar berfformiad ysgolion, wedi lliniaru rhai o'r pryderon ynghylch peidio â darparu set fwy cyflawn o ddata perfformiad.

59. Nid oedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi'n llwyr gan y ffordd y gwnaeth yr awdurdod lleol ddadansoddi'r data perfformiad. Ar y cyfan, mae deilliannau hirdymor yng Nghyfnod Allweddol 4, pan gânt eu meincnodi, wedi bod yn gymysg yn Ysgol Uwchradd Cei Connah, ac er bod y deilliannau mewn rhai blynyddoedd wedi bod yn y chwarteli uchaf o'u cymharu ag eraill yn yr un grwpiau prydau ysgol am ddim, mae Ysgol Uwchradd Cei Connah hefyd wedi bod yn y grwpiau is ac isaf ar adegau. Ar y llaw arall, mae'r data perfformiad wedi'i feincnodi'n awgrymu bod Ysgol Uwchradd John Summers wedi perfformio'n gyson yn dda tan y 2 flynedd ddiwethaf. Yn fwyaf diweddar, perfformiodd Ysgol Uwchradd Cei Connah ychydig yn well nag Ysgol Uwchradd John Summers, ac er ei bod yn y chwartel isaf yn 2015 dim ond ychydig islaw'r canolrif ydoedd. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi bod deilliannau yn Ysgol Uwchradd Penarlâg, pan gânt eu meincnodi, wedi bod yn gyson yn un o'r 2 chwartel uchaf ac yn well nag Ysgol Uwchradd John Summers. Ni ellir dweud yr un peth am Ysgol Uwchradd Dewi Sant, y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn credu y bydd yn agosach nag unrhyw ysgol arall i rai disgyblion pe bai Ysgol Uwchradd John Summers yn cau. Mae perfformiad yn yr ysgol hon wedi bod yn gymysg ac nid yw Ysgrifennydd y Cabinet yn credu bod tystiolaeth gyson i ddangos bod deilliannau wedi bod yn well yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant nag yn Ysgol Uwchradd John Summers, pan gânt eu meincnodi, er bod Ysgrifennydd y Cabinet yn derbyn nad ydynt yn waeth o gwbl ar hyn o bryd mwy na thebyg.

60. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi mynegi peth pryder ynghylch cynnig yr awdurdod lleol mai Ysgol Uwchradd Cei Connah fydd y brif ysgol arall y bydd disgyblion yn cael eu hadleoli iddi. Mae hyn ar y sail bod oddeutu 13.8% o'r disgyblion ar y gofrestr yn Ysgol Uwchradd Cei Connah yn cael prydau ysgol am ddim a bod 31.5% o ddisgyblion yn Ysgol Uwchradd John Summers yn cael prydau ysgol am ddim. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn pryderu ynghylch yr effaith y byddai cynnydd sylweddol yng nghanran y plant sy'n cael prydau ysgol am ddim yn ei chael ar ddeilliannau mewn termau absoliwt yn Ysgol Uwchradd Cei Connah. Fodd bynnag, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod, ar yr amod bod yr ysgol yn gallu ymateb i anghenion y disgyblion hyn, na fydd hyn yn wir o anghenraid pan gaiff data ei feincnodi ac roedd yr awdurdod lleol yn gallu cyfeirio at ddeilliannau gwell i ddisgyblion sydd â hawl i PYADd ym Mhenarlâg a Chei Connah.

61. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi nad yw Ysgol Uwchradd John Summers yn darparu unrhyw gyfleusterau na gwasanaethau unigryw neu arbenigol i gefnogi plant ag anghenion addysgol arbennig. Felly, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn credu y bydd yr awdurdod lleol yn gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion addysgol arbennig y gall fod gan ddisgyblion presennol Ysgol Uwchradd John Summers mewn unrhyw ysgol arall yn ardal Sir y Fflint. Mae hi'n nodi sicrwydd yr awdurdod lleol y bydd ystyriaeth benodol yn cael ei rhoi i ddisgyblion ag ADY trwy drefniadau pontio er mwyn sicrhau bod y cynnig yn tarfu gyn lleied â phosibl arnynt ac y bydd eu hanghenion yn cael eu blaenoriaethu ynghyd â grwpiau agored i niwed eraill.

62. Er bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod bod gwrthwynebiadau a oedd yn ymwneud â'r ethos cynhwysol yn Ysgol Uwchradd John Summers sy'n annog plant i ffynnu, nid yw hi'n cytuno â gwrthwynebwyr nad yw'r ethos hwn yn bodoli yn ysgolion eraill Sir y Fflint. Roedd arolygiad diweddaraf Estyn yn canmol Ysgol Uwchradd Cei Connah am ei hethos cynhwysol a'i gallu i integreiddio disgyblion o gefndiroedd cymdeithasol gwahanol. Felly, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi bod gan Ysgol Uwchradd Cei Connah brofiad o dderbyn plant o gefndiroedd cymdeithasol amrywiol a'i bod yn gallu gwneud hynny.

63. Mae'r awdurdod lleol wedi derbyn y gallai cau Ysgol Uwchradd John Summers arwain at ansicrwydd ymhlith disgyblion, staff a'r gymuned ehangach, yn enwedig ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17. Mae'r risg i'w weld ar ei fwyaf ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10 a fydd yn gorfod astudio eu cyrsiau TGAU mewn dwy ysgol, y flwyddyn gyntaf yn Ysgol Uwchradd John Summers a'r ail flwyddyn mewn ysgol arall, sef Ysgol Uwchradd Cei Connah mwy na thebyg. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod bod yr awdurdod lleol wedi cynnwys llywodraethwyr Ysgol Uwchradd John Summers yn y trafodaethau ynghylch y cynnig a bod amserlen wedi'i llunio gan eu cynnwys hwy. Gan gofio mai pontio yw un o brif bryderon Ysgrifennydd y Cabinet, mae hi wedi'i hargyhoeddi bod yr awdurdod lleol wedi darparu sicrwydd y bydd yn gwneud popeth y gall ei wneud i sicrhau bod y cynnig yn tarfu gyn lleied â phosibl ar ddisgyblion.

Darpariaeth

64. Pe bai'r cynnig i gau'r ysgol yn cael ei gymeradwyo, mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn y gallai diffyg sicrwydd swydd beri risg i ddarparu addysg 11-16 effeithiol yn y byrdymor. Mae prif bryder Ysgrifennydd y Cabinet yn y cyswllt hwn yn ymwneud â'r disgyblion hynny a fydd ym Mlwyddyn 10 ac yn astudio blwyddyn gyntaf eu cyrsiau TGAU yn Ysgol Uwchradd John Summers yn 2016/17. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth wedi'i diweddaru a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol wedi rhoi peth sicrwydd bod gwaith paratoi sylweddol wedi cael ei wneud i esmwytho'r broses bontio, er bod Ysgrifennydd y Cabinet yn dymuno pwysleisio pwysigrwydd sicrhau y terfir gyn lleied â phosibl ar addysg disgyblion yn 2016/17 a thu hwnt.

65. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod sawl gwrthwynebydd wedi honni na fyddai Ysgol Uwchradd Cei Connah yn darparu adeiladau sydd o leiaf cystal neu'n well na'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Uwchradd John Summers. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn credu ei bod yn ymddangos bod peth sail i bryderon o'r fath gan fod cynllun amlinellol strategol Cyngor Sir y Fflint yn cynnwys cynlluniau i foderneiddio Ysgol Uwchradd Cei Connah yn sylweddol. Mae hyn yn awgrymu y bydd angen i'r awdurdod lleol roi sylw i bryderon ynghylch digonolrwydd yr adeiladau. Fe hoffai Ysgrifennydd y Cabinet weld cynnydd sylweddol mewn gwelliannau i adeiladau Ysgol Uwchradd Cei Connah cyn i'r disgyblion drosglwyddo ym mis Medi 2017. Mae

Ysgrifennydd y Cabinet yn deall ei bod yn annhebygol y bydd y gwelliannau'n cael eu cwblhau tan ar ôl y dyddiad hwn ond mae wedi nodi sicrwydd yr awdurdod lleol na fyddai unrhyw waith yn peryglu darpariaeth addysg effeithiol yn yr ysgol.

66. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno bod y cynnig i ddirwyn y ddarpariaeth 11-16 yn Ysgol Uwchradd John Summers i ben, ar y cyfan, yn debygol o gynnal neu wella safonau'r ddarpariaeth addysg yn yr ardal yn yr hirdymor. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod y bydd heriau i ymdrin â hwy ym mlwyddyn academaidd 2016/17 a'i bod yn bosibl y bydd rhywfaint o darfu yn ystod y cyfnod pontio, ond mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi y cyfyngir gyn lleied â phosibl ar hyn ar yr amod bod y cymorth pontio'n cael ei ddarparu a'r gwaith moderneiddio'n cael ei wneud gan yr awdurdod lleol. Heb welliannau i'r adeiladau, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ei chael yn anodd cael ei hargyhoeddi y bydd safonau'r adeiladau o leiaf cystal neu'n well i'r grŵp 11-16 unwaith y byddant yn symud i Ysgol Uwchradd Cei Connah.

67. Ar sail yr uchod, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn gosod amod ar y gymeradwyaeth i'r cynnig i gau Ysgol Uwchradd John Summers, sef y bydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo ar yr amod bod yr awdurdod lleol yn cael cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf ac unrhyw ganiatâd cynllunio angenrheidiol er mwyn moderneiddio Ysgol Uwchradd Cei Connah i lefel foddhaol. Mae cynlluniau presennol yr awdurdod lleol yn dynodi y bydd y gwaith adeiladu'n dechrau ym mis Gorffennaf 2017. Felly, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi penderfynu bod yn rhaid bodloni'r amodau erbyn 14 Gorffennaf 2017 er mwyn cael y gymeradwyaeth i'r cynnig. Y sail resymegol dros hyn yw y gellir hysbysu'r disgyblion a fydd y cynnig i gau'r ysgol yn mynd yn ei flaen ai peidio cyn diwedd y tymor ysgol blaenorol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

68. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod Ysgol Uwchradd John Summers wedi syrthio o'r categori oren i'r categori coch yn y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion yn ddiweddar. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cydnabod hefyd bod perfformiad Ysgol Uwchradd John Summers yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi bod yn dirywio ar y cyfan ers 2012 ac y gallai hyn fod wedi bod yn ffactor wrth bennu categori diweddaraf yr ysgol, er bod y perfformiad wedi gwella ychydig yn 2015. Hefyd, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi nodi bod pennaeth yr ysgol wedi gadael ei swydd yn ystod y cyfnod hwn ac y gallai hyn fod wedi cael effaith negyddol ar berfformiad. Mae Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn ymwybodol bod niferoedd y disgyblion yn gostwng ac o'r heriau ychwanegol y mae'r ysgol yn debygol o'u hwynebu fel ysgol fach.

69. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi ei bod yn ymddangos nad yw Ysgol Uwchradd John Summers wedi cael unrhyw anhawster mantoli ei chyllideb dros y blynyddoedd diwethaf, ac mai dim ond cryfhau sefyllfa ariannol yr ysgol y mae cael gwared ar y chweched dosbarth yn debygol o'i wneud.

70. Ym marn Ysgrifennydd y Cabinet, pe bai Ysgol Uwchradd John Summers yn aros ar agor, mae cyfleoedd i'w gwella fel ysgol 11-16 trwy fod â sylfaen ariannol gadarnach a chyda'r gefnogaeth a'r her ychwanegol a gynigir i ysgolion a osodwyd yn y categori coch. Nid yw Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno o anghenraid gyda'r awdurdod lleol y byddai'n her penodi pennaeth parhaol; ar yr amod y byddai'r ysgol yn cael ei chadw ar agor hyd y gellir rhagweld gan roi sicrwydd swydd, er ei bod yn cydnabod bod recriwtio a chadw penaethiaid yn gallu bod yn her i ysgolion bach weithiau.

71. Nid yw Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi ynghylch safbwynt yr awdurdod lleol bod yn rhaid i Ysgol Uwchradd John Summers gau er mwyn gwella darpariaeth addysg ar gyfer y garfan 11-16, ond yn yr un modd nid oes ganddi reswm dros gredu y bydd safonau yn yr ardal yn ei chyfanrwydd yn dirywio os bydd yn cau. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi ei bod yn debygol y bydd safonau'n cael eu cynnal a bod yr awdurdod lleol wedi rhoi sicrwydd y bydd yn lliniaru unrhyw risgiau mewn perthynas â tharfu ar y ddarpariaeth addysg yn ystod y cyfnod pontio. Fodd bynnag, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn credu'n gryf bod y gwaith moderneiddio a gwella i Ysgol Cei Connah yn hollbwysig i sicrhau y byddai safonau'r ddarpariaeth yn well, a dyna pam y gosodir yr amod ar y gymeradwyaeth.

Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

72. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ymwybodol bod niferoedd y disgyblion yn Ysgol Uwchradd John Summers wedi bod yn gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, gyda chanran y lleoedd gwag yn codi o 20.18% yn 2009 i 35.75% yn 2015. Mae hi'n cydnabod bod amcanestyniadau ar gyfer niferoedd y disgyblion yn dynodi y bydd y niferoedd yn dechrau cynyddu yn y blynyddoedd nesaf, ond nid tan 2020.

73. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod cael gwared ar y chweched dosbarth o Ysgol Uwchradd John Summers, ynghyd ag Ysgol Uwchradd Cei Connah ac Ysgol Uwchradd Dewi Sant, wedi cynyddu canran y lleoedd gwag yn yr ardal yn sylweddol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn deall y byddai cael gwared ar y chweched dosbarth yn golygu bod gan yr ysgol lai na 300 o blant, a chyda'r amcanestyniadau'n dangos gostyngiad tan 2020 mae hyn yn peri pryder iddi ynghylch hyfywedd yr ysgol a'i gallu i ddarparu'r cwricwlwm llawn.

74. Nid yw Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi'n llwyr bod sicrwydd y bydd rhieni yn yr ardal yn parhau i ymgysylltu â'r ysgol pe bai'n aros ar agor. Mae'r farn hon yn seiliedig ar y ffaith bod ceisiadau am leoedd i ddisgyblion newydd eisoes wedi gostwng yn sylweddol ar gyfer 2016/17; er bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod y gallai hyn fod i'w briodoli i'r ansicrwydd ynghylch dyfodol hirdymor yr ysgol. Fodd bynnag, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn credu bod y gwrthwynebiad sylweddol i gau'r ysgol yn awgrymu bod y gymuned yn debygol o barhau i ymgysylltu â'r ysgol i ryw raddau pe bai'n aros ar agor.

75. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi bod digon o leoedd gwag yn ysgolion yr ardal i dderbyn yr holl ddisgyblion a fydd yn cael eu dadleoli os a phan fydd Ysgol Uwchradd John Summers yn cau. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn pryderu rhywfaint

na fydd disgyblion yn gallu mynychu Ysgol Uwchradd Penarlâg fel eu hysgol agosaf, gan fod goralw yn Ysgol Uwchradd Penarlâg ar hyn o bryd gyda 303 o'i disgyblion yn rhai nad yw Penarlâg yn ysgol agosaf iddynt. Fodd bynnag, mae hi'n ystyried y bydd y broblem hon yn mynd yn llai yn y dyfodol ac y bydd disgyblion a fyddai wedi mynychu Ysgol Uwchradd John Summers yn flaenorol yn mynychu Ysgol Uwchradd Penarlâg yn lle hynny. Er bod hyn wedi peri pryder i Ysgrifennydd y Cabinet, mae hi wedi nodi y bydd yr awdurdod lleol yn cymhwyso trefniadau cludiant yn ôl disgresiwn ar gyfer yr holl garfan bresennol o ddisgyblion i Ysgol Uwchradd Cei Connah. Ar gyfer disgyblion sy'n mynegi dewis o blaid ysgol arall yna bydd cymhwystra ar gyfer cludiant yn cael ei ystyried yn unol â pholisi'r Cyngor ar gludiant rhwng y cartref a'r ysgol.

76. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi hefyd ei bod yn debygol y bydd ansawdd yr adeiladau yn Ysgol Uwchradd Penarlâg, fel yr ysgol arall agosaf, yn well na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Uwchradd John Summers. Fodd bynnag, ni ellir dweud yr un peth am Ysgol Uwchradd Cei Connah a dyna'r rheswm pam fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi penderfynu rhoi cymeradwyaeth amodol i'r cynigion gan fynnu bod yr awdurdod lleol yn sicrhau'r cyllid a'r caniatâd cynllunio angenrheidiol er mwyn moderneiddio Ysgol Uwchradd Cei Connah.

Darparu adnoddau ar gyfer addysg, a goblygiadau ariannol eraill

77. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod y bydd yr awdurdod lleol yn creu arbedion o £383,000 o ganlyniad i beidio â chadw Ysgol Uwchradd John Summers ar agor. Mae hi hefyd yn deall bod yr awdurdod lleol yn rhagweld y bydd ei gostau cludiant yn cynyddu i oddeutu £169,000 o ganlyniad i ariannu cludiant ar gyfer disgyblion a adleolir. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi felly bod y cynnig yn debygol o arwain at arbedion o oddeutu £214,000 i'r awdurdod lleol.

78. Gan y bydd disgyblion yn adleoli i ysgolion eraill, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod y bydd yr ysgolion eraill hyn yn cael mwy o gyllid o ganlyniad i'r disgyblion ychwanegol a bod hyn yn debygol o gynyddu eu cost-effeithiolrwydd gydag arbedion maint. Gan fod y gost am bob disgybl yn Ysgol Uwchradd John Summers yn uwch nag mewn ysgolion eraill ar hyn o bryd, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn credu ei bod yn debygol y bydd cau'r ysgol yn ei gwneud yn bosibl dosbarthu cyllid yn fwy teg rhwng yr ysgolion eraill yn yr ardal, gan olygu y byddant yn cyfrannu'n well at ddarparu ysgolion cynaliadwy a, mwy na thebyg, yn gwella rheolaeth strategol ar yr ystâd ysgolion.

79. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod hefyd, fel y mae pethau ar hyn o bryd, nad oes gan yr awdurdod lleol unrhyw gynlluniau sydd wedi'u cadarnhau ar gyfer y safle ac felly na fydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf o werthu tir nac adeiladau o ganlyniad i'r cynnig hwn.

FFACTORAU CYFFREDINOL ERAILL

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

80. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi bod yr awdurdod lleol wedi cwblhau asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Mae hi'n nodi ei bod yn ymddangos bod yr awdurdod lleol wedi archwilio'r effeithiau ar gydraddoldeb mewn cryn fanylder, a bod y gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr lleol wedi bod yn rhagweithiol gyda'r rhieni perthnasol trwy gydol y broses. Mae hi wedi nodi sicrwydd yr awdurdod lleol y bydd cymorth i blant sipsiwn/teithwyr yn cael ei flaenoriaethu fel rhan o gynllunio'r trefniadau

pontio. Hefyd, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi bod gan Ysgol Uwchradd Cei Connah hanes da o gynhwysiant, rhywbeth y cyfeiriwyd ato yn arolygiadau Estyn. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi na fyddai unrhyw ddisgyblion o grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn profi anfantais annheg o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Effaith ar y gymuned

81. Nid yw Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno'n gyfan gwbl â'r casgliad y daethpwyd iddo yn asesiad yr awdurdod lleol o'r effaith ar y gymuned a oedd yn nodi y gallai'r cynigion i ad-drefnu'r ddarpariaeth yn yr ardal hon yn Sir y Fflint gael effaith niwtral neu gadarnhaol. Fodd bynnag, mae hi'n nodi sicrwydd yr awdurdod lleol y bydd cyfleusterau cymunedol yn dal i fod ar gael ar safle Ysgol Gynradd Queensferry ac yn y ganolfan hamdden gyferbyn â'r campws. Mae'n anodd i Ysgrifennydd y Cabinet ddod i unrhyw gasgliad arall heblaw am effaith negyddol ar y cyfan yn y byrdymor wrth i rai o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd gael eu hadleoli.

Pa effaith y bydd y cynnig yn ei chael ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd economaidd amddifadus

82. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno ag elfennau o gasgliadau'r awdurdod lleol bod y dewis ychwanegol o gyrsiau a gynigir yn Ysgol Uwchradd Cei Connah, ynghyd â'r cynnydd yn eu hargaeledd a'u priodoldeb yn golygu y bydd eu safon o leiaf yr un fath â'r hyn a gynigir yn Ysgol Uwchradd John Summers.

83. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi bod yr awdurdod lleol wedi cydnabod bod rhai heriau i rannau o gymuned leol Ysgol Uwchradd John Summers ac y byddant yn cael sylw trwy ddatrysiadau megis cynnig cludiant am ddim i'r garfan bresennol o ddisgyblion i Ysgol Uwchradd Cei Connah.

84. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn credu y gallai adleoliad i ysgol fwy gael effaith gadarnhaol ar yr holl blant gan y byddai'n debygol o gynnig mwy o amrywiaeth gymdeithasol a bod o gymorth i'r broses o integreiddio ag elfennau eraill o gymunedau amrywiol.

Effaith y cynigion ar ddarpariaeth 11-16 mewn ysgolion

85. Mae gan Ysgrifennydd y Cabinet rai pryderon ynghylch y risg y bydd y cynigion yn tarfu ar addysg plant yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17. Mae'r pryder hwn yn deillio i raddau helaeth o'r risg y bydd staff addysgu'n gadael yr ysgol oherwydd diffyg sicrwydd swydd, gan arwain felly at addysg doredig i'r plant yn yr ysgol. Caiff y pryder hwn ei gynyddu gan y ffaith nad yw'n ymddangos bod gan yr awdurdod lleol unrhyw gynllun wrth gefn pe bai'r risg hwn yn cael ei wireddu a bod nifer o aelodau o'r staff addysgu'n ceisio cyflogaeth mewn sefydliadau eraill. Fodd bynnag, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod, unwaith y bydd Ysgol Uwchradd John Summers yn cau, ei bod yn debygol y bydd adleoli'r disgyblion i ysgolion eraill yn cynyddu'r galw am staff addysgu yn yr ysgolion eraill ac felly'n darparu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer athrawon.

86. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn pryderu hefyd ynghylch y ffaith y bydd disgyblion TGAU yn gorfod astudio yn Ysgol Uwchradd John Summer ym Mlwyddyn 10 ac mewn ysgol arall ym Mlwyddyn 11, sef Ysgol Uwchradd Cei Connah mwy na thebyg. Y pryder sydd ganddi yw y gallai'r newid amgylchedd hwn darfu ar blant a hynny yn ei

dro'n effeithio'n anffafriol ar eu haddysg. Caiff y pryder hwn ei gynyddu gan y risg a grybwyllwyd yn flaenorol a allai gael ei wireddu yn Ysgol Uwchradd John Summers ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17. Er bod hwn yn risg amlwg, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod bod hwn yn risg a fyddai'n bresennol yn y rhan fwyaf o gynigion i gau ysgolion mwy na thebyg ac mae wedi'i hargyhoeddi bod yr awdurdod lleol yn cymryd camau i liniaru'r risg hwn fel y terfir gyn lleied â phosibl ar y plant. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn deall bod camau'n cael eu cymryd i gysoni cwricwla yn Ysgol Uwchradd John Summers â chwricwla'r ysgolion sy'n partneru, gan weithredu trefniant pontio effeithiol i leihau ansefydlogrwydd i'r eithaf a sicrhau bod disgyblion yn cael eu haddysgu gan yr un staff addysgu fel y ceir parhad lle y bo'n bosibl.

Yr effaith ar Ysgol Gynradd Queensferry

87. Gan fod yr ysgol gynradd hon yn rhannu campws Queensferry gydag Ysgol Uwchradd John Summers ac yn defnyddio rhai o gyfleusterau'r Ysgol Uwchradd, megis neuaddau, y ffreutur a'r gegin, mae'n amlwg y bydd rhywfaint o effaith ym marn Ysgrifennydd y Cabinet. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi, yn dilyn cael sicrwydd gan yr awdurdod lleol, y bydd Ysgol Gynradd Queensferry yn parhau i fod â mynediad at y cyfleusterau y mae'n eu rhannu ar hyn o bryd gydag Ysgol Uwchradd John Summers wedi iddi gau.

FFACTORAU PENODOL WRTH YSTYRIED CYNIGION I GAU YSGOLION

Y Gymuned

88. Roedd gan Ysgrifennydd y Cabinet rai pryderon ynghylch y gallu i gyflawni amcanion Cymunedau yn Gyntaf yng ngoleuni'r ffaith bod swyddfa'r clwstwr lleol wedi'i lleoli yn Ysgol Uwchradd John Summers. Mae'r awdurdod lleol wedi cadarnhau y bydd y swyddfa Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer clwstwr Dwyrain Sir y Fflint yn cael ei hadleoli i safle arall neu'n cael ei huno â swyddfa bresennol clwstwr arall ac y bydd eu gwaith yn gallu parhau. Felly, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi na ddylai amcanion Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer yr ardal gael eu peryglu.

Ystyried dewisiadau eraill

89. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi bod yr awdurdod lleol wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r opsiynau eraill sydd ar gael ac a oedd wedi'u rhestru yn y ddogfen ymgynghori. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn credu y gellid bod wedi ymdrin â rhai elfennau mewn modd mwy sensitif nag a wnaed yn ôl pob golwg o ystyried adwaith y gymuned leol i'r cynnig. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn credu bod hyn wedi deillio'n bennaf o ofid y gymuned, sy'n ddealladwy, o ganlyniad i'r optimistiaeth flaenorol ynglŷn â'r cynnig gwreiddiol ar gyfer ysgol 3-16 newydd a oedd wedi cael cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru.

FFACTORAU I'W HYSTYRIED WRTH GYMERADWYO/PENDERFYNU YNGHYLCH CYNIGION TREFNIADAETH YSGOLION

A oes unrhyw gynigion eraill cysylltiedig

90. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet ystyriaeth i berthnasedd cynigion eraill i ad-drefnu ysgolion a darpariaeth chweched dosbarth yn Queensferry a'r ardal gyfagos. The Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi penderfynu bod cysylltiad uniongyrchol rhwng y cynnig i

gau Ysgol Uwchradd John Summers a'r cynnig hwn i gael gwared ar y ddarpariaeth chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd John Summers. Y sail i'r penderfyniad hwn yw na fyddai'n bosibl cau'r ysgol pe na bai'r cynnig i gael gwared ar y chweched dosbarth yn cael ei gymeradwyo.

A yw'r ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion

91. Defnyddiodd yr awdurdod lleol yr un ddogfen ymgynghori ar gyfer y ddau gynnig sy'n ymwneud â John Summers. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi ar y cyfan bod y ddogfen ymgynghori ar gael i'r holl ymgyngoreion y cyfeirir atynt ym mharagraff 3.2 o'r Cod. Fodd bynnag, roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn siomedig i nodi, er bod yr ymgynghoriad ar agor am 43 diwrnod, nad oedd peth gwybodaeth ar gael nes bod 13 diwrnod wedi mynd heibio wedi i'r ymgynghoriad ddechrau, ac yn arbennig:

    - data hanesyddol ar ddisgyblion a data ar ddisgyblion yn y dyfodol ar gyfer ysgolion eraill yn yr ardal;
    - gwybodaeth o'r adroddiadau diweddaraf gan Estyn ar gyfer pob ysgol y mae'n debygol yr effeithir arnynt (er bod dolen i wefan Estyn wedi cael ei chynnwys yn wreiddiol);
    - gwybodaeth ariannol ychwanegol am arbedion;
    - effaith debygol y cynigion ar allu'r ysgol neu ysgolion yr effeithir arnynt i ddarparu'r cwricwlwm llawn ym mhob cyfnod allweddol;
    - gwybodaeth am lwybrau cerdded i ysgolion eraill.

92. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi'n rhannol yn unig bod yr awdurdod lleol wedi cynnal yr ymgynghoriad yn unol â'r Cod mewn perthynas â chau'r ysgol. Fodd bynnag, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi bod yr wybodaeth a hepgorwyd wedi cael ei chyhoeddi 13 diwrnod wedi i'r cyfnod ymgynghori ddechrau a'i bod yn debygol y byddai 30 diwrnod wedi bod yn ddigon o amser i ystyried y cynnig. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn y gallai ymgyngoreion fod wedi cael gafael ar beth o'r wybodaeth o ffynonellau eraill, megis gwybodaeth am arolygiadau ar y ddolen i wefan Estyn a ddarparwyd yn y ddogfen ymgynghori, data perfformiad ar Fy Ysgol Leol a gwybodaeth leol am lwybrau cerdded. Fodd bynnag, byddai wedi bod yn anodd cael gwybodaeth am yr effaith ar ysgolion eraill neu eu gallu i ddarparu'r cwricwlwm llawn o ffynonellau eraill. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi na fyddai'r wybodaeth hon wedi newid y canlyniad na barn ymgyngoreion pe bai wedi bod ar gael yn gynharach yn y cyfnod ymgynghori. Felly, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn credu y byddai'n anodd dadlau na fyddai hwn wedi bod yn ddigon o amser i alluogi ymgyngoreion i ystyried y cynnig yn llawn, yn enwedig gan fod cyfarfodydd ymgynghori wedi cael eu cynnal hefyd wedi i'r wybodaeth ategol gael ei chyhoeddi.

93. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn dymuno nodi pryder ynghylch y fersiwn o'r ddogfen ymgynghori a oedd yn addas i blant. Mae'r Cod yn datgan bod yn **rhaid** i wybodaeth a roddir i blant gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n berthnasol i'w hoedran a'u dealltwriaeth debygol ac y **dylai'r** ddogfen esbonio'n glir beth yw'r gwahaniaeth rhwng cyfnodau ymgynghori a gwrthwynebu a sut y gall plant wrthwynebu. Er nad yw'r Cod yn nodi'r hyn y mae'n **rhaid** ei gynnwys yn y fersiwn sy'n addas i blant, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn siomedig na chafodd yr wybodaeth ategol ei chyhoeddi ar ffurf fersiynau a oedd yn addas i blant hefyd mewn ffordd a oedd yn berthnasol i'w hoedran a'u dealltwriaeth debygol. Fodd bynnag, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi

dod i'r casgliad bod yr awdurdod lleol wedi cydymffurfio â'r Cod yn y cyswllt hwn er na chafodd yr wybodaeth ei chyflwyno mewn fersiwn a oedd yn addas i blant.

94. Nid yw diffyg cydymffurfio gweithdrefnol wastad yn gamgymeriad dybryd ond bydd penderfyniad a wnaed yn dilyn ymarfer ymgynghori diffygiol yn sefyll dim ond os yw Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi ei bod yn anorfod y byddai'r canlyniad wedi bod yr un fath pe na bai'r ymarfer ymgynghori wedi bod yn ddiffygiol. Pe bai'r wybodaeth a hepgorwyd wedi cael ei chynnwys yn yr ymgynghoriad o'r dechrau un, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi na fyddai hyn wedi arwain at wneud sylwadau a oedd yn codi unrhyw fater neu wybodaeth newydd a fyddai wedi effeithio ar ei phenderfyniad hi. Felly mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi i'r graddau uchel sy'n ofynnol ei bod yn anorfod y byddai wedi dod i'r un penderfyniad ynghylch y cynnig pe bai'r wybodaeth wedi cael ei chynnwys yn y ddogfen ymgynghori ar y dechrau.

95. Ar ben hynny, mae Ysgrifennydd y Cabined wedi'i hargyhoeddi bod yr adroddiad ymgynghori wedi mynd i'r afael â'r prif faterion o'r broses ymgynghori ac wedi cynnwys ymateb Estyn hefyd yn ogystal ag ymateb yr awdurdod lleol. Ar y cyfan, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi bod yr awdurdod lleol wedi ymgynghori yn unol â gofynion y Cod ynghylch y cynnig i gau'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd John Summers.

A yw'r cynnig wedi cael ei gyhoeddi yn unol â'r Cod ac a yw'r hysbysiad yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol

96. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i hargyhoeddi y cydymffurfiwyd â'r gofynion cyhoeddi.

Penderfyniad ynghylch y cynnig i ddirwyn y ddarpariaeth 11-16 i ben ac, i bob pwrpas, i gau Ysgol Uwchradd John Summers

97. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi rhoi cymeradwyaeth amodol i gynnig Cyngor Sir y Fflint i ddirwyn y ddarpariaeth 11-16 yn Ysgol Uwchradd John Summers i ben, gan gau'r ysgol i bob pwrpas.

98. Cafodd y penderfyniad ei wneud ar ôl ystyriaeth ofalus a manwl ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth hyd yma, oherwydd yr effaith y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn credu bod y cynnig yn debygol o'r chael ar ansawdd a safonau addysg, a ddylai fod o'r pwys mwyaf.

99. Fodd bynnag, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi gosod amod ar y gymeradwyaeth. Bydd y gymeradwyaeth yn bodoli dim ond ar yr amod bod Cyngor Sir y Fflint yn cael cymeradwyaeth i'w gais am gyllid ac unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol i wella Ysgol Uwchradd Cei Connah i safon a nodir yn ei Gynllun Amlinellol Strategol a gyflwynwyd i dîm Cyllid Cyfalaf Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Llywodraeth Cymru. Mae'n rhaid bod yr awdurdod lleol wedi cael cymeradwyaeth i'w gais am gyllid a chaniatâd cynllunio erbyn 14 Gorffennaf 2017.

100. Dylai'r awdurdod lleol hysbysu'r Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion, Y Gyfarwyddiaeth Addysg yn Llywodraeth Cymru pan fydd y cynnig wedi cael ei weithredu.

101. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Brif Weithredwr Cyngor Sir y Fflint.

Yn gywir

STEVE VINCENT
Dirprwy Gyfarwyddwr
Yr Is-Adran Effeithiolrwydd Ysgolion
Deputy Director
Schools Effectiveness Division